# Y PWYLLGOR CRAFFU - GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD
# 3ydd GORFFENNAF 2015

*(SYLWER: MAE'R COFNODION HYN YN AMODOL AR GAEL EU CADARNHAU GAN Y PWYLLGOR YN EI GYFARFOD NESAF)*

**Yn bresennol:** **Y Cynghorydd G.Thomas (Cadeirydd)**

**Y Cynghorwyr:** **S.M. Allen (Is-gadeirydd), I.W. Davies, K. Madge, T.T. Defis, W.T. Evans, E. Morgan, P. Edwards, H.I. Jones, E.G. Thomas, J. Williams, J.S. Williams**

**Hefyd yn bresennol:**

**Y Cynghorydd J. Tremlett** - Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd

Hefyd yn bresennol fel sylwedyddion: **Y Cynghorwyr J.S. Edmunds** a **B.A.L. Roberts**

**Roedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

Mr. J. Morgan – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol
Mrs. R. Dawson – Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Integredig
Mr. A. Maynard –Pennaeth Dros Dro Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
Mr. D. Eldred – Cyfrifydd y Grŵp *(Eitem 6)*
Mr. P. Llewellyn – Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Partneriaethau Strategol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda *(Eitem 4)*
Mr. J. Rees – Swyddog Datblygu ar y Cyd - Gofalwyr (*Eitem 4)*
Mr. L. Walters – Uwch-reolwr Cymorth Busnes (Gofal Cymdeithasol) (Eitem 5)
Mr. M. Hughes - Ymgynghorydd Cynorthwyol

**Lleoliad:** Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, 10:05am – 12:25pm)

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr S.M. Caiach a D.J.R. Llewellyn.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod(ion) | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd K. Madge | Eitemau 4-6 | Ei ferch yn gweithio yn y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol |
| Y Cynghorydd J. Williams | Eitemau 4-6 | Mae'n ofalwr di-dâl |

# Y PWYLLGOR CRAFFU - GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD
# 3ydd GORFFENNAF 2015

**3. DATGAN CHWIP WAHARDDEDIG**

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

**4. STRATEGAETH GWYBODAETH AC YMGYNGHORI AR GYFER GOFALWYR HYWEL DDA - ADRODDIAD BLYNYDDOL 2014-15**

*Croesawyd Peter Llewellyn (Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Partneriaethau Strategol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.*

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Adroddiad Blynyddol 2014/15 Strategaeth Gwybodaeth ac Ymgynghori ar gyfer Gofalwyr Hywel Dda. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Partneriaethau Strategol gyflwyniad cryno, a amlinellai'r gwaith a wnaed yn ystod 2014/15 a'r heriau a'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2015/16. Roedd y cyflwyniad yn canolbwyntio ar waith y grwpiau a'r mentrau canlynol:

- Grŵp Gweithredu'r Strategaeth
- Buddsoddwyr mewn Gofalwyr
- Is-grŵp Gwybodaeth
- Gofalwyr Ifanc
- Grŵp Hyfforddiant / Modiwl E-ddysgu *Carer Aware*
- Monitro Perfformiad
- Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Trafodwyd y materion canlynol yn ystod y drafodaeth ynghylch yr eitem hon:

Trafodwyd diddymiad y Mesur ar gyfer Gofalwyr, ynghyd ag effaith deddfwriaeth newydd ar gyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd yn y dyfodol mewn perthynas â gofalwyr, a gofynnwyd pam y cafodd y mesur ei gyflwyno yn y lle cyntaf. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Partneriaethau Strategol fod y mesur wedi'i gyflwyno'n wreiddiol i roi arweiniad i'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yng Nghymru ynghylch ymgysylltu â gofalwyr. Fodd bynnag, yn sgil y cynnydd mewn deddfwriaeth roedd Llywodraeth Cymru yn ei gynnig ar hyn o bryd (e.e. Bil Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Iechyd a Lles), roedd Gweinidogion yn gweld hyn fel cyfle i ddiddymu'r hen fesur. Roedd swyddogion yn poeni y byddai diddymu'r mesur hwn yn golygu bod cymorth penodol i ofalwyr yn cael ei golli yn y ddeddfwriaeth newydd.

Trafodwyd yr anawsterau roedd gofalwyr ifanc yn eu hwynebu a cheisiwyd eglurhad ynghylch y math o gymorth oedd yn cael ei ddarparu i ofalwyr yn y grŵp oedran hwn. Bu i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Partneriaethau Strategol gydnabod bod hwn yn grŵp allweddol a'i bod yn hanfodol ceisio clustnodi unigolion er mwyn penderfynu ar ymyriadau a chymorth iddynt cyn gynted â phosibl. Roedd y Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid yn gweithio gydag amrywiaeth o asiantaethau yn cynnwys ysgolion a gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion er mwyn ceisio clustnodi gofalwyr ifanc. Roedd y cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc yn cynnwys darparu seibiannau byr fel y gallent ganolbwyntio ar eu hastudiaethau neu dreulio amser gyda ffrindiau.

Bernid bod tua mil o ofalwyr ifanc yn Sir Gaerfyrddin, ond roedd yn debygol fod y ffigur yn uwch mewn gwirionedd.

Mewn ymateb i awgrym y dylai llywodraethwyr ysgol gael hyfforddiant ar anghenion gofalwyr ifanc, dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Partneriaethau Strategol y byddai'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio gydag ysgolion drwy Fforymau Penaethiaid Ysgol er mwyn rhoi sylw i anghenion pobl ifanc ac i sut y gallai ysgolion helpu i'w cynorthwyo. Bu iddo groesawu'r awgrym a chytuno i'w gynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Roedd aelodau'r Pwyllgor yn croesawu'r cynnydd oedd wedi ei amlinellu yn yr adroddiad, ond mynegwyd pryder ganddynt ynghylch y posibilrwydd o golli cyllid y Mesur ar gyfer Gofalwyr, gwerth £130,900, o fis Ebrill 2016 ymlaen, ynghyd ag effaith hynny ar y swyddi cyfnod penodol presennol a'r gwasanaethau Gofalwyr Ifanc. Awgrymwyd y byddai'r lleihad mewn cyllid yn cael effaith niweidiol ar y gwaith presennol oedd yn cael ei wneud, ac y dylid gofyn i'r Bwrdd Gweithredol lobïo Llywodraeth Cymru er mwyn pwysleisio pwysigrwydd yr adnodd hwn a gwneud cais am i'r adnodd beidio â chael ei dorri. Cytunodd y Pwyllgor â'r cynnig hwn.

Gan ymateb i gwestiwn pellach ynghylch y lleihad yn 2014/15 i'r cyllid oedd yn cael ei ddyrannu, dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Partneriaethau Strategol wrth y Pwyllgor ei bod wedi bod yn ofynnol i fwrw golwg arall ar y Cynllun Gweithredu cychwynnol hanner ffordd drwy'r flwyddyn. Roedd hyn wedi arwain at leihau a diwygio nifer o'r amcanion allweddol. Roedd hyn wedi cael effaith ar ddatblygiad arfaethedig Gwasanaeth Allgymorth cyflawn i Ofalwyr a'r bwriad i gyflogi Swyddog Cymorth Prosiectau penodedig er mwyn gwneud cynnydd o ran agenda'r Gofalwyr Ifanc.

Tynnwyd sylw at rôl cymdogion a gyflawnai rôl 'ofalu', yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a gofynnwyd pa gymorth oedd yn cael ei roi iddynt. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Partneriaethau Strategol y gallai unigolyn a oedd yn helpu cymydog oedrannus neu fregus gael ei gofrestru'n ofalwr drwy ei Feddyg Teulu (cyn belled â bod yr unigolyn a'i deulu'n cytuno i hynny) ac yn sgil hynny, dderbyn y cymorth priodol i ofalwyr.

Gan ymateb i gwestiwn ynghylch sut y câi cyllid i ofalwyr ei ddyrannu i Fyrddau Iechyd eraill, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Partneriaethau Strategol fod cyllid yn cael ei ddyrannu yn ôl poblogaeth a bod hyn o anfantais i siroedd gwledig â phoblogaethau llai wedi'u gwasgaru dros ardaloedd mawr iawn.

Ceisiwyd eglurhad ynghylch oedran y gofalwyr ifanc hyn a oedd yn hysbys i'r Bwrdd Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Partneriaethau Strategol wrth y Pwyllgor fod yr ystadegau oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad yn cwmpasu gofalwyr ifanc hyd at 18 oed ond bod y Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid yn gwybod am rai oedd mor ifanc â 7-8 oed. Cytunodd i ddosbarthu rhagor o wybodaeth am ofalwyr ifanc i'r Pwyllgor.

Gofynnwyd a fyddai'r cynllun peilot gan fferyllfa Ysbyty Llwynhelyg, sef rhoi taflenni Gwybodaeth i Ofalwyr yn yr holl fagiau meddyginiaeth a roddid i gleifion wrth adael yr ysbyty, yn cael ei ehangu i'r holl ysbytai yn rhanbarth Hywel Dda. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Partneriaethau Strategol fod y cynllun hwn yn mynd i gael ei ymestyn i'r holl fferyllfeydd yn ystod y flwyddyn i ddod, yn dilyn llwyddiant y cynllun peilot yn Hwlffordd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**4.1 Cymeradwyo'r adroddiad.**

**4.2 Gofyn i'r Bwrdd Gweithredol lobïo Llywodraeth Cymru er mwyn pwysleisio pwysigrwydd cyllid y Mesur ar gyfer Gofalwyr a gwneud cais am iddo beidio â chael ei dorri o Ebrill 2016 ymlaen.**

## 5. ADRODDIAD DIWEDD BLWYDDYN YNGHYLCH RHEOLI PERFFORMIAD - 1AF EBRILL 2014 HYD AT 31AIN MAWRTH 2015

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Adroddiad Diwedd Blwyddyn ynghylch Rheoli Perfformiad ar gyfer y gwasanaethau oedd yn ei gylch gwaith am y cyfnod rhwng 1af Ebrill 2014 a 31ain Mawrth 2015. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol wrth y Pwyllgor fod ei dîm rheoli yn ailystyried cynnwys yr adroddiadau monitro perfformiad er mwyn gweld a oedd y wybodaeth a gâi ei rhoi i'r aelodau'n berthnasol ac yn ddefnyddiol. Ei fwriad oedd cyflwyno crynodeb o gynigion swyddogion i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Medi.

Trafodwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

Gofynnwyd cwestiwn ynghylch statws presennol Cartref Gofal Glanmarlais yn Llandybïe. Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd wrth y Pwyllgor fod y cartref wedi cau'r wythnos honno gan fod y preswylwyr diwethaf oedd ar ôl wedi dod o hyd i lety arall. Roedd y staff yn cael eu had-leoli i leoliadau neu wasanaethau eraill ar hyn o bryd.

Gofynnwyd pa mor dda oedd y gwasanaeth cyflenwi 24 awr o ran Ymarferwyr Iechyd Meddwl i Oedolion yn gweithio, o gofio'r her o ddarparu gwasanaeth cyflenwi y tu hwnt i oriau ar y rota wrth gefn. Dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu wrth y Pwyllgor fod prosiect peilot wedi cael ei ddatblygu i sicrhau bod gwasanaeth cyflenwi 24 awr ar gael, gan glustnodi a hyfforddi staff ar yr un pryd er mwyn cynyddu nifer yr ymarferwyr oedd ar gael. Hefyd roedd swyddogion yn ystyried opsiynau eraill megis diwygio proffiliau swyddi er mwyn cynnwys elfen o waith sifft er mwyn ategu'r gwasanaeth cyflenwi y tu allan i oriau, gan nad oedd dyletswydd ar ymarferwyr presennol i roi cymorth yn ychwanegol at eu prif rôl.

Cyfeiriwyd at y gwaith o annog pobl i recriwtio eu cynorthwywyr personol eu hunain gan ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol ac awgrymwyd bod nifer o unigolion yn

amheus o'r system hon gan eu bod yn ofni bod yn 'gyflogwr'. Gofynnwyd pa waith oedd yn cael ei wneud i helpu unigolion i fabwysiadu Taliadau Uniongyrchol. Bu i Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Integredig gydnabod y pryderon a rhoi gwybod i'r Pwyllgor fod gwaith ar y gweill eisoes o ran deall pam yr oedd unigolion wedi dechrau Taliadau Uniongyrchol, er mwyn helpu'r Awdurdod i hyrwyddo'r opsiwn hwn i bobl hŷn a gwneud y wybodaeth berthnasol yn gliriach.

Ceisiwyd eglurhad ynghylch y broses atgyfeirio mewn perthynas â'r Diweddariad ynghylch y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu wrth y Pwyllgor fod Sir Gaerfyrddin, ynghyd â phob awdurdod lleol, wedi wynebu heriau sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ganlyniad i Ddyfarniad Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig. Roedd nifer yr atgyfeiriadau ddengwaith yn fwy ac yn dilyn hynny roedd yr Adran wedi datblygu cynllun gweithredu i ddelio â'r sefyllfa, yn cynnwys sefydlu proses gategoreiddio i ddelio â'r atgyfeiriadau ar sail risg (gwyrdd, melyn, a choch yn ôl lefel y risg asesedig). Hefyd roedd tîm bach o swyddogion wedi cael ei sefydlu i ymdrin â'r achosion mwyaf difrifol (categori coch). Gan ymateb i gwestiwn dilynol ynghylch blaenoriaethu atgyfeiriadau, dywedodd pe bai atgyfeiriad yn dod i law mewn perthynas ag unigolyn oedd yn byw mewn cartref gofal penodol yr oedd gan swyddogion bryderon amdano eisoes, byddai atgyfeiriad o'r fath yn cael ei flaenoriaethu. Fodd bynnag atgoffwyd y Pwyllgor gan Bennaeth Dros Dro Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu bod disgwyl rhagor o ddyfarniadau mewn perthynas â'r mater hwn a allai effeithio ar ymagwedd yr Awdurdod yn y dyfodol.

Gofynnwyd beth oedd y rheswm dros y gwahaniaeth yn nifer y galwadau cynlluniedig ac anghynlluniedig i'r Gwasanaeth Ymateb Union ar gyfer y Nos a chanddo ar gyfer gwahanol ardaloedd daearyddol. Dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Integredig wrth y Pwyllgor ei bod yn anodd rhoi'r rheswm heb wybod manylion llawn yr achosion oedd yn gysylltiedig â'r galwadau hyn, er mai'r rheswm tebygol oedd yr anghenion oedd gan yr unigolion dan sylw. Ychwanegodd y byddai'r galwadau anghynlluniedig yn anhawster o ran ymchwilio ymhellach fel rhan o adolygiad o'r Gwasanaeth Ymateb Union a oedd i fod i gychwyn cyn bo hir. Awgrymodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol fod hon yn enghraifft arall o ystadegyn gweithgaredd nad oedd ei ddiben yn addas at y diben mwyach o bosibl. Fodd bynnag cytunodd i ddosbarthu rhagor o wybodaeth am y mater hwn i'r Pwyllgor.

Trafodwyd y ddarpariaeth Canolfan Ddydd a cheisiwyd eglurhad ynghylch yr union niferoedd oedd yn mynychu'r ganolfan yng Nghaerfyrddin, a sut y byddid yn diwallu anghenion yr unigolion hyn pe bai newidiadau'n cael eu gwneud i'r gwasanaeth canolfan ddydd yn y dyfodol. Bu i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol gydnabod y byddai angen sawl ateb gwahanol o achos yr amrywiaeth eang o anghenion roedd y canolfannau'n eu diwallu. Er enghraifft, byddai angen mynd i'r afael â'r sawl oedd yn mynychu'r ganolfan am eu bod yn unig mewn modd gwahanol i'r sawl oedd â dementia. Rhagwelid y byddai cynllun gofal ychwanegol newydd Cartref Cynnes yn Nhre Ioan yn darparu ar gyfer y rhai oedd ag anghenion mwy arbenigol o ddydd i ddydd. Wrth i'r niferoedd leihau mewn canolfannau dydd, dywedodd y byddai angen ailddatblygu'r gwasanaeth a byddai papur er mwyn

gwneud hyn yn cael ei lunio yn yr wythnosau nesaf. Hefyd cadarnhaodd swyddogion mai'r ffigyrau yn yr adroddiad oedd nifer y dyddiau pobl oedd ar gael a nifer y dyddiau pobl pryd yr oedd unigolion yn mynychu. Y ffigwr o tua 30 ar gyfer Canolfan Ddydd Caerfyrddin oedd yr amcangyfrif o'r union unigolion a oedd rhyngddynt yn cyfrif am y cyfanswm a fynychai'r ganolfan.

Gofynnwyd pa gynnydd oedd wedi'i wneud mewn perthynas â chyllidebau cyfun gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Er mai hynny oedd y nod, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol wrth y Pwyllgor ei fod mewn gwirionedd yn fater cymhleth iawn i'w roi ar waith o ddydd i ddydd. Un enghraifft fyddai'r gwahanol ofynion cyfreithiol a reolai weithgareddau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r awdurdodau lleol mewn perthynas â chodi tâl am wasanaethau (e.e. Cyllid Gofal Iechyd Parhaus). Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod yr Adran ar fin comisiynu gwaith ymchwil i ymchwilio i'r mater ymhellach.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.**

## 6. ADRODDIAD MONITRO YNGHYLCH CYLLIDEB REFENIW A CHYLLIDEB GYFALAF 2014/15

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Adroddiadau Monitro y Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, mewn perthynas â'r sefyllfa ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2014/15. Dywedodd y Pwyllgor fod cyllideb refeniw yr Adran Cymunedau yn dangos gorwariant o £1,605,000 ar ddiwedd y flwyddyn, tra bo'r rhaglen gyfalaf yn dangos amrywiant o £2,353,000 o gymharu â'r gyllideb gymeradwy ar gyfer 2014/15.

Codwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

Gan ymateb i gwestiwn am y llithriant o £345,000 o ran arbedion effeithlonrwydd yn y Gwasanaethau Dydd i Bobl Hŷn, dywedodd Cyfrifydd y Grŵp wrth y Pwyllgor fod yr Adran wedi cyflwyno cynigion o'r blaen ar gyfer ailstrwythuro'r Gwasanaethau Dydd ond bod y rhain wedi cael eu symud ymlaen i flwyddyn ariannol 2016/17.

Cyfeiriwyd at y tanwariannau yn sgil swyddi gwag a gofynnwyd a fyddai'r swyddi hyn yn cael eu llenwi. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol wrth y Pwyllgor fod hyn yn adlewyrchiad cyffredinol o'r newidiadau mewn adran mor fawr lle roedd wastad staff yn dechrau swyddi, yn symud i swyddi newydd, neu'n gadael yr Awdurdod. Nid oedd yn fwriad gan yr Adran gadw swyddi'n wag heb reswm.

Gofynnwyd a oedd modd rhagweld y gorwariannau ar becynnau ychwanegol yn y Gwasanaethau Pobl Hŷn ac Anableddau Dysgu, ac a ellid cynllunio'r ddarpariaeth. Dywedodd Cyfrifydd y Grŵp a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol mai'r rheswm dros hyn yn syml oedd y galw am y gwasanaethau, ond hefyd bod cysylltiad â'r ffaith nad oedd yr Adran wedi cyrraedd ei thargedau eto o ran lleihau gwariant mewn meysydd penodol.

# Y PWYLLGOR CRAFFU - GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD
# 3$^{ydd}$ GORFFENNAF 2015

*Cafodd y Pwyllgor ei ohirio am ychydig er mwyn arsylwi munud o dawelwch i gofio am y sawl a laddwyd yn yr ymosod diweddar gan derfysgwr yn Nhiwnisia.*

Cafodd ei gydnabod fod gwneud arbedion effeithlonrwydd yn bwysig, ond bod rhai o'r cynigion yn yr adroddiad yn cael eu cwestiynu, yn enwedig yn y gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau a Gofal Seibiant i Oedolion, a cheisiwyd rhagor o eglurhad ynghylch beth fyddai effaith yr arbedion effeithlonrwydd ar y gwasanaeth a ddarperid yn y dyfodol. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol fod y pwyslais nid yn unig ar gael gwasanaethau cost-effeithiol ond ar sicrhau bod unigolion yn cael y gwasanaethau cywir yn y lle cyntaf. Dywedodd y byddai gwasanaethau'n cael eu cwtogi yn achos rhai unigolion, ond bod yr Adran yn ceisio lliniaru unrhyw effaith drwy weithredu mewn ffyrdd gwahanol. Roedd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn cytuno, a dywedodd mai nad torri gwasanaethau oedd bwriad yr arbedion effeithlonrwydd ond eu gwella a bod yn fwy effeithlon. Ychwanegodd fod y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau wedi cael ei ad-drefnu ond nad oedd swyddi wedi cael eu dileu.

Awgrymwyd bod gan swyddogion syniadau da iawn ar gyfer gwella gwasanaethau ac yn y blaen, ond roedd yn ymddangos bod deddfwriaeth a gwahanol bolisïau gan lywodraethau canolog neu ranbarthol yn rhwystr o ran rhoi'r syniadau ar waith. Bu i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol gydnabod bod llawer o rwystrau i'w goresgyn ond mai un o'r rhai anoddaf oedd darbwyllo preswylwyr a'r rhai y byddai unrhyw newidiadau i wasanaethau yn effeithio arnynt yn uniongyrchol. Felly roedd yn bwysig bod yr Awdurdod yn gallu mynegi'r achos dros newid yn effeithiol ac mewn ffordd roedd pobl yn ei deall.

Cyfeiriwyd at y Cynlluniau Gofal Ychwanegol yn Rhydaman a Chaerfyrddin a gofynnwyd a oedd swyddogion yn hyderus bod y rhain ar y trywydd iawn ac y byddent yn cael eu cwblhau yn ôl y disgwyl. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol ei bod yn edrych yn debygol y byddai'r ddau brosiect yn cael eu cwblhau o fewn y terfynau amser cytunedig. Wedi dweud hynny, roedd rhai problemau technegol ar safle Rhydaman yr oedd y contractwyr wrthi'n eu datrys ar hyn o bryd. Gan ymateb i gwestiwn arall ynghylch gwneud cais am le yn y cyfleusterau newydd yng Nghaerfyrddin, dywedodd y Cyfarwyddwr wrth y Pwyllgor nad oedd yn bosibl rhoi prydlesi gan nad oedd y naill brosiect na'r llall wedi'i gwblhau, ond y gallai unigolion fynegi diddordeb drwy'r Adran.

Gofynnwyd beth oedd yr Awdurdod yn bwriadu ei wneud gyda safle Cartref Gofal Glanmarlais yn Llandybïe, gan fod yr holl breswylwyr wedi gadael erbyn hyn. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol nad oedd penderfyniad wedi'i wneud hyn yn hyn gan fod pobl wedi bod yn byw yn y cartref tan yr wythnos honno. Ar ôl i'r cartref gael ei ddadgomisiynu, gellid dechrau'r gwaith o benderfynu ar ddyfodol y safle a byddai'r aelodau lleol perthnasol yn cael gwybod am y datblygiadau diweddaraf.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.**

# Y PWYLLGOR CRAFFU - GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD
# 3ydd GORFFENNAF 2015

**7. EGLURHAD YNGHYLCH PEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIADAU CRAFFU**

**PENDERFYNWYD nodi'r eglurhad dros beidio â chyflwyno Adran Gwynion yr Adroddiad Rheoli Perfformiad (Eitem 5).**

**8. Y PWYLLGOR CRAFFU - GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD: Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y CAMAU GWEITHREDU / ATGYFEIRIADAU**

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth ddiweddaraf a fanylai ar y cynnydd o ran y camau gweithredu, y ceisiadau, neu'r cyfeiriadau oedd wedi deillio o gyfarfodydd blaenorol.**

**9. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhestr o'r eitemau fyddai'n cael eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 16eg Medi, 2015.**

**10. LLOFNODI BOD COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR AR 22ain MAI 2015 YN GYWIR**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion y cyfarfod oedd wedi'i gynnal ddydd Gwener 22ain Mai 2015 yn gywir.**

**LLOFNODWYD:** __________________________ (Cadeirydd)

**Y DYDDIAD:** __________________________